Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr
**Heol Bethel**
**Cwmtwrch Isaf**
**Abertawe**
**SA9 2PT**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/08/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Dyffryn y Glowyr, sy'n ysgol ardal, ym mhentref Cwmtwrch Isaf ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Powys. Sefydlwyd yr ysgol o'r newydd ym mis Medi 2012 o dan arweiniad y pennaeth presennol ac o ganlyniad i uno dwy ysgol gynradd leol. Symudwyd i'r adeilad newydd ym mis Ionawr 2013. Mae'r dalgylch yn cynnwys yr ardal leol a'r pentrefi cyfagos.

Mae 293 disgybl ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 50 oed meithrin amser llawn a 12 sy'n mynychu'r ganolfan anghenion dwys. Fe'u rhennir yn 12 dosbarth, sy'n cynnwys pedwar sydd â disgyblion oed cymysg.

Daw 47% o ddisgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd. Ychydig iawn sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae ychydig dros 10% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae gan tua 17% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ond ychydig iawn sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig.

Dyma arolygiad cyntaf yr ysgol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr yn 2014-2015 yw £3,829. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ym Mhowys yw £13,848 a'r lleiafswm yw £3,007. Mae Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr yn y 34ain safle o'r 86 ysgol gynradd ym Mhowys o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- Bod ganddi ethos Cymreig, cynhwysol, teuluol a gweithgar, sy'n llwyddo i annog y disgyblion i fod yn gyfeillgar tuag at ei gilydd ac i fwynhau dysgu
- Bod bron pob un yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn datblygu'n dda
- Bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rheini yn y ganolfan anghenion dwys, yn gwneud cynnydd effeithiol yn erbyn y targedau a osodir ar eu cyfer
- Bod ymddygiad y disgyblion mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol, bron yn ddieithriad, yn dda iawn
- Bod y cyngor ysgol yn frwdfrydig, yn ystyried dyheadau'r disgyblion ac amcanion yr ysgol o ddifri ac yn gweithredu arnynt
- Bod staff yn cynllunio'n ofalus er mwyn darparu ystod eang, amrywiol a diddorol o brofiadau dysgu i'r disgyblion
- Bod safon yr addysgu yn gyson effeithiol ar draws yr ysgol a bod gan yr holl athrawon ddisgwyliadau uchel
- Bod y staff yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o weithdrefnau asesu
- Bod gan yr ysgol drefniadau trylwyr iawn i adnabod anghenion dysgu ychwanegol unigolion a bod staff yn gweithredu'n gynnar ac yn bwrpasol arnynt
- Bod yr adeilad yn cynnwys cyfleusterau ardderchog i gefnogi'r dysgu yn effeithiol

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Bod gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer datblygu'r ysgol yn gymuned gynhwysol ac ysgogol
- Bod arweinwyr wedi llwyddo i sefydlu tîm cydlynus o ymarferwyr cydwybodol, ac ystod o weithdrefnau effeithiol, er mwyn sicrhau addysg o ansawdd cyson uchel mewn amser byr iawn
- Bod arweinwyr a staff yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn gyson
- Bod aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn gydwybodol
- Bod gan yr ysgol weithdrefn hunanarfarnu gynhwysfawr sy'n datblygu dealltwriaeth y staff o gryfderau'r ysgol a'r meysydd prin i'w gwella
- Bod yr uwch dîm rheoli yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol a thueddiadau mewn data perthnasol yn effeithiol i adnabod cynnydd a nodi agweddau i'w datblygu

- Bod blaenoriaethau’r cynllun gwella ysgol yn deillio'n uniongyrchol o’r meysydd i'w datblygu a adnabuwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu
- Bod yr ysgol yn cydweithio’n egnïol ag ystod eang o bartneriaethau i sicrhau amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr a symbylus i’r disgyblion sy’n cyfrannu’n sylweddol at eu lles a’u cyflawniad
- Bod gan yr ysgol bartneriaeth arbennig o fuddiol a chreadigol gydag ysgol gynradd arall mewn sir gyfagos, sydd wedi arwain at ddarpariaeth benodol sy’n arwain y sector
- Bod yr ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn dda, gan sicrhau trefniadau staffio priodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol
- Bod y pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli'r cyllid yn ofalus

## Argymhellion

A1 Cynllunio mwy o gyfleoedd i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae disgyblion yn cychwyn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd amrywiol iawn. Fodd bynnag, yn ystod eu cyfnod yno, mae bron pob un yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Mae medrau gwrando a llafar bron pob disgybl yn dda iawn. Mae disgyblion yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau oedolion ac ar ei gilydd mewn sesiynau dysgu, ac yn ymateb yn hyderus ar lafar, gan ddefnyddio geirfa a chystrawen gynyddol gywir yn y Gymraeg, a hefyd yn Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn medru cynnal dadl a mynegi barn mewn modd aeddfed yn y ddwy iaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n ddarllenwyr brwd ac aeddfed. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn defnyddio strategaethau priodol i adeiladu geiriau anghyfarwydd yn hyderus. Maent yn darllen yn gynyddol gywir a thrafod cynnwys eu llyfrau mewn modd aeddfed. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen gyda mynegiant clir ac yn amrywio goslef y llais yn briodol wrth ddarllen testunau ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu.

Mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall llawer ysgrifennu'n hyderus, gan sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir, amrywio'r dechrau brawddegau, a defnyddio gwahanol ffurfiau'r ferf lle'n briodol. Maent yn ysgrifennu'n gynyddol gywir mewn ystod o wahanol ffurfiau ac mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn cofnodi ffeithiau am drychfilod, portread o flaidd, neu rysáit creadigol er mwyn cyflawni 'gweithredoedd hudol'. Maent yn atalnodi'n gywir, gan ddefnyddio atalnod llawn, ebychnod, marc cwestiwn a dyfynodau pan fydd yn briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall bron pob disgybl ysgrifennu darnau estynedig diddorol a chywir yn y ddwy iaith, mewn ystod eang o wahanol ffurfiau ac mewn cyd-destunau amrywiol ar draws y cwricwlwm. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys portread o Monet wrth astudio'i waith mewn gwersi celf, ac adroddiad i bapur newydd yn seiliedig ar Abertawe adeg y Blitz mewn gwersi hanes. Ceir enghraifft nodedig o waith ysgrifennu estynedig o safon uchel, lle mae disgyblion hŷn yr ysgol yn cydweithio â disgyblion mewn ysgol arall. Maent yn gweithio ar y cyd, drwy gyfrwng electronig, ar brosiect ysgrifennu stori hir yn dwyn y teitl 'Y Fenyw Mewn Du'.

Mae medrau rhifedd y disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus ar draws yr ysgol. Gall y rhan fwyaf gymhwyso'u medrau mathemategol yn gynyddol gywir mewn ystod o wahanol gyd-destunau. Maent yn cyfri, mesur a thrin data ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu gan fynd i'r afael â thasgau diddorol mewn meysydd amrywiol ar draws y cwricwlwm. Mae enghreifftiau penodol yn y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys llunio diagram i gyfleu eu casgliadau wrth ddosbarthu trychfilod, a llunio rhicbrennau a graff bar i ddynodi eu hoff ffrwyth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae enghreifftiau yn cynnwys dadansoddi graffiau yn seiliedig ar hanes y glowyr lleol, a mesur pellter a phlotio cyfesurynnau mewn daearyddiaeth.

Mae medrau dysgu annibynnol y disgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rheini yn y ganolfan anghenion dwys, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn erbyn y targedau a osodir ar eu cyfer.

Nid yw'n bosibl adrodd yn ddibynadwy ar dueddiadau ym mherfformiad yr ysgol, gan mai dim ond canlyniadau dros ddwy flynedd sydd ganddi wedi eu gwirio. Mae'n deg nodi hefyd fod data perfformiad yr ysgol yn cynnwys canlyniadau'r disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan anghenion dwys.

Er bod gwelliant yng nghanlyniadau 2014 o gymharu â 2013, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliannau disgwyliedig wedi aros yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol. Ar y deilliannau uwch, mae perfformiad wedi codi o'r 50% is i'r 50% uwch mewn llythrennedd ac o'r 50% uwch i'r 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol.

Mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefelau disgwyliedig wedi codi o'r 50% is i'r 50% uwch mewn Cymraeg ac o'r 25% isaf i'r 50% uwch mewn Saesneg rhwng 2013 a 2014 o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad wedi codi o'r 50% is i'r 50% uwch mewn mathemateg, ond wedi aros yn yr 50% is mewn gwyddoniaeth. Mae perfformiad ar y lefelau uwch wedi amrywio, ond wedi bod yn yr 50% is yn gyffredinol.

Mae safon gwaith cyfredol y disgyblion yn well nag y mae'r data'n ei awgrymu ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch. O ystyried cyd-destun yr ysgol yn llawn, mae'r data ar gyfer y flwyddyn gyfredol, er heb ei wirio, yn arddangos bod yr ysgol wedi cynnal y safonau cyffredinol uchel a gyflawnwyd yn y ddwy flynedd flaenorol ar y lefelau disgwyliedig. Mae'r data hefyd yn arddangos cynnydd sylweddol ar y lefelau uwch mewn mathemateg, gwyddoniaeth a'r ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2.

Nid oes patrwm o wahaniaeth nodedig rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'r gweddill, na rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae bron pob un o'r farn bod yr ysgol yn delio'n effeithiol â'r achlysuron prin o fwlio.

Mae ymddygiad y disgyblion mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol, bron yn ddieithriad, yn dda iawn. Maent yn arddangos parch tuag at eu cyfoedion ac maent yn groesawgar a chwrtais i ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n gynhyrchiol ag eraill ac maent yn datblygu'r medrau i wella eu dysgu eu hunain yn briodol. Fodd bynnag, ar ychydig brydiau, nid yw'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud digon o ddewisiadau mewn perthynas â'u dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos rhinweddau personol buddiol fel hunanddibyniaeth a dyfalbarhad wrth ddatrys problemau.

Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth glir o sut i fwyta ac yfed yn iach a phwysigrwydd ymarfer corfforol. Mae lefelau uchel o gyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol buddiol, er enghraifft rygbi pêl droed a phêl rwyd, yn cadarnhau hyn.

Mae presenoldeb y disgyblion wedi gwella er 2012. Mae'r cyfraddau presenoldeb 2014 yn gosod yr ysgol yn yr 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg eraill. Mae data heb ei wirio yn dangos bod yr ysgol wedi cynnal y lefelau yn y flwyddyn academaidd gyfredol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn brydlon i'w gwersi.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn frwdfrydig ac yn ystyried dyheadau'r disgyblion eraill ac amcanion yr ysgol o ddifri. Fel grwpiau, maent wedi cael dylanwad cadarnhaol ar sawl agwedd o fywyd yr ysgol, er enghraifft drwy gyfrannu at lunio polisi presenoldeb a disgyblaeth, a chynllunio cwrs rhaffau ar dir yr ysgol. Cyfranna'r holl ddisgyblion yn frwd at weithgareddau i gasglu arian tuag at ystod o elusennau.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio'n ofalus er mwyn darparu ystod eang, amrywiol a diddorol o brofiadau dysgu i'r disgyblion. Mae'r cynlluniau gwaith ynghyd â chynlluniau'r athrawon yn gynhwysfawr ac yn ymateb yn dda i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, y Cwricwlwm Cenedlaethol, egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae'r ysgol yn defnyddio themâu fel cyfrwng i sbarduno diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Mae cwricwlwm yr ysgol yn diwallu anghenion grwpiau ac unigolion penodol yn dda ac yn cynnig rhaglenni personol priodol ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion dysgu penodol.
Mae datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), ynghyd â medrau meddwl y disgyblion, yn sylfaen gref i'r holl gynllunio ac mae'r systemau olrhain cynnydd yn gadarn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn effeithiol ac yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da. Mae'n treiddio drwy holl fywyd yr ysgol. Mae gweithgareddau cyfoethog allgyrsiol yn cefnogi hyn yn effeithiol. Mae'r cyfleoedd gwerthfawr a ddarperir i'r disgyblion ddysgu am hanes, daearyddiaeth, a diwylliant Cymru a'r ardal leol yn un o gryfderau'r ysgol, ac yn ganolog i'w gwaith thema.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod helaeth o brofiadau ysgogol i ddisgyblion ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae hyn eto yn gryfder. Mae staff, ynghyd â'r eco-bwyllgor, yn annog disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol ac i chwarae rhan weithgar yn y gymuned leol ac o fewn y gymuned fyd-eang. Mae cysylltiadau helaeth gydag unigolion mewn gwledydd eraill, yn cynnwys Patagonia, Mecsico a Qatar, yn cryfhau ymwybyddiaeth disgyblion o sut mae pobl eraill yn byw. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gynnig am grantiau ariannol, casglu tuag at elusennau, ailgylchu, defnyddio llai o ynni, a dysgu am nwyddau masnach deg. Mae hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o fentergarwch a materion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd.

## Addysgu: Da

Mae safon yr addysgu yn gyson effeithiol ar draws yr ysgol. Mae gan yr holl athrawon ddisgwyliadau uchel, gwybodaeth bynciol dda a dealltwriaeth gadarn o anghenion y disgyblion yn eu dosbarth. Mae athrawon yn cynllunio'u gwersi'n fanwl, gan nodi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn ystod o gyd-destunau diddorol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cynllunio digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddewis eu gweithgareddau eu hunain yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae bron pob athro yn defnyddio ystod briodol o strategaethau dysgu yn effeithiol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion y disgyblion. Mae pob un yn rhannu amcanion a meini prawf llwyddiant y gwersi yn gyson gyda'r disgyblion er mwyn iddynt ddeall gofynion y dasg. Ceir perthynas waith effeithiol rhwng yr athrawon a'r staff cynorthwyol, a hefyd rhwng yr oedolion a'r disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu gwersi.

Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson ac yn adeiladol, gan roi adborth llafar ac ysgrifenedig defnyddiol iddynt. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt weithredu ar y cyngor hwn drwy fireinio a gwella eu gwaith. Mae hyn yn gymorth iddyn nhw ddeall yr hyn maent yn ei wneud yn dda, yr hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn gwella a chymhwyso'r cyngor yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn myfyrio'n briodol ar eu hymdrechion personol ac yn arfarnu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd yn dda. Mae'r arfer hon yn miniogi eu ffocws ar eu gwaith, ac yn arf sy'n eu galluogi i ddeall yn well, yr hyn maent yn ei wneud.

Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o weithdrefnau asesu er mwyn cynllunio gweithgareddau priodol sy'n cwrdd ag anghenion penodol unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae staff yn olrhain cynnydd y disgyblion yn gyson ac yn fanwl er mwyn iddynt fesur eu cynnydd mewn meysydd penodol. Mae gan y disgyblion dargedau priodol ar gyfer gwella a gwyddant pan fyddant wedi eu cyrraedd.

Mae'r adroddiadau i rieni ar gynnydd eu plant yn gynhwysfawr ac yn bodloni'r gofynion yn llawn.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Maent yn addysgu'r disgyblion yn effeithiol am bwysigrwydd cadw'n heini a diogelwch personol. Fe wneir hyn yn llwyddiannus mewn gwersi ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn manteisio'n llawn ar wasanaeth asiantaethau allanol, fel yr heddlu a'r nyrs. Mae'r asiantaethau a'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth buddiol i ddisgyblion ac yn cyfoethogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion lles, fel e ddiogelwch, er enghraifft.
Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg iechyd, diogelwch personol a hylendid yn effeithiol. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o agweddau ysbrydol a moesol mewn sesiynau addoli ar y cyd ac amser cylch.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol a chymdeithasol disgyblion yn hynod lwyddiannus trwy weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau trylwyr iawn i adnabod anghenion dysgu ychwanegol unigolion ac maent yn gweithredu’n gynnar ac yn bwrpasol arnynt. Mae’r ysgol yn annog rhieni i gysylltu’n ddi-oed i drafod materion sy’n achosi pryder iddynt mewn perthynas â’u plant. Mae cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau priodol ynghyd â gweithgareddau penodol er mwyn sicrhau cynnydd a her i ddisgyblion. Caiff rhieni a disgyblion eu cynnwys yn briodol trwy gydol y broses adolygu. Mae aelodau’r tîm anghenion dysgu ychwanegol yn gweithio’n agos ac yn effeithiol gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol er budd y disgyblion. Mae’r gofal a’r gynhaliaeth i’r disgyblion hyn o safon uchel ac yn gymorth iddynt wneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos Cymreig, cynhwysol, teuluol a gweithgar yn bodoli, sy’n llwyddo’n dda i annog y disgyblion i fod yn gyfeillgar tuag at ei gilydd ac i fwynhau dysgu. Mae staff yn pwysleisio pwysigrwydd cwrteisi, parch ac ymddygiad da. Mae polisïau a gweithdrefnau effeithiol yn sicrhau mynediad cyfartal i’r cwricwlwm i bob disgybl. Mae’r ysgol yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn annog disgyblion i fod yn oddefgar ac i gefnogi elusennau yn llwyddiannus.

Mae’r adeilad yn newydd ac yn cynnwys cyfleusterau ardderchog i gefnogi’r dysgu’n effeithiol. Mae’r ystafelloedd a’r mannau cyhoeddus yn cynnwys arddangosfeydd lliwgar a symbylus o safon uchel iawn, sy’n rhoi bri ar waith y disgyblion. Mae’r ardaloedd y tu allan yn cynnwys ystod eang o adnoddau creadigol a lliwgar ar gyfer datblygu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus, ac i hwyluso gweithgareddau allanol disgyblion cyfnod allweddol 2. Mae’r rhandir a’r ardal wyllt yn adnoddau arbennig o ddefnyddiol ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o’r byd natur.

Mae'r adeilad a'r tir o’i gwmpas yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn cael ei gynnal a’i gadw i safon uchel.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer datblygu’r ysgol yn gymuned gynhwysol ac ysgogol. Mewn amser byr, mae wedi llwyddo i sefydlu tîm cydlynus o ymarferwyr cydwybodol ac ystod o weithdrefnau effeithiol er mwyn sicrhau addysg o ansawdd cyson uchel. Mae'r rhain yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at greu ysgol sy'n hunanfeirniadol ac yn datblygu'n barhaus.

Mae gan bob aelod o'r staff gyfrifoldebau penodol ar gyfer datblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu effeithiol.  Trwy gyfarfodydd rheolaidd, mae cyfleoedd gwerthfawr ganddynt i drafod cynnydd ac i fonitro gweithrediad ac effaith cynlluniau gwella'r ysgol.  Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad trylwyr sy'n herio'r staff i ddatblygu a gwella eu harfer trwy osod amcanion pwrpasol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r cynllun gwella.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn gyson.  Mae'n gweithredu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a Siarter Iaith Gymraeg yr awdurdod lleol yn llwyddiannus.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, yn arbennig medrau llefaredd disgyblion yn y Gymraeg.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau strategol yn gydwybodol.  Maent yn meddu ar wybodaeth drylwyr am gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu, sy'n eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfri yn briodol.  Mae eu hymweliadau cyson â'r ysgol yn gymorth gwerthfawr iddynt fedru cyfrannu at, a gwella'r gweithdrefnau hunanarfarnu.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefn hunanarfarnu gynhwysfawr sy'n datblygu dealltwriaeth y staff o gryfderau'r ysgol a'r meysydd prin i'w gwella yn dda.  Mae trefniadau hunanarfarnu yn fanwl ac wedi eu sefydlu'n gadarn ar gyraeddiadau disgyblion ac ansawdd yr addysgu.  Mae'r uwch dîm rheoli yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol a thueddiadau mewn data perthnasol yn effeithiol i adnabod cynnydd a nodi agweddau i'w datblygu.  Mae'r rhain yn cynnwys craffu ar waith disgyblion, monitro gwersi a chywain barn llywodraethwyr, rhieni a disgyblion.  Mae'r staff yn cyfrannu'n effeithiol at y broses drwy greu adroddiadau cynhwysfawr ar ansawdd ac effaith y ddarpariaeth.  Mae'r adroddiad hunanarfarnu, sy'n deillio o'r gweithdrefnau hyn, yn gytbwys ac yn dangos bod arweinwyr yn adnabod eu hysgol yn dda.

Mae blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol yn deillio'n uniongyrchol o'r meysydd i'w datblygu a adnabuwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu.  Mae'r cynllun yn ddogfen weithredol sy'n canolbwyntio'n glir ar wella safonau.  Mae'n cynnwys blaenoriaethau addas ar gyfer gwella, ynghyd ag adolygiad trylwyr o'r cynnydd mewn perthynas â blaenoriaethau'r cynllun blaenorol.  Mae'r camau gweithredu ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau yn fanwl, ac mae'n cynnwys amserlen gweithredu, cyfrifoldebau staff, a gofynion cyllidol.  Mae'r cynllun yn gwneud defnydd effeithiol o ddangosyddion llwyddiant a thargedau meintiol heriol.  Mae arweinwyr yn monitro'r cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn gyson ac yn drylwyr.  Mae hyn yn arwain at gysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth a chynnydd mewn deilliannau, yn arbennig ar y lefelau uwch.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae staff yr ysgol yn cydweithio'n egnïol a llwyddiannus ag ystod eang o bartneriaethau i sicrhau amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr a symbylus i'r disgyblion. Mae'r cysylltiadau hyn yn cyfrannu'n sylweddol tuag at eu lles a'u cyflawniad.

Er eu sefydlu, mae'r ysgol wedi magu perthynas agos a buddiol â rhieni. O ganlyniad i gais gan rieni i wella'r cyfathrebu, mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol drwy wella'i gwefan a datblygu'r arfer o anfon negeseuon testun. Mae hyn wedi gwella'r cyfathrebu'n llwyddiannus. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn gorff brwdfrydig a gweithredol ac mae nifer o rieni wedi cyfrannu'n sylweddol drwy godi symiau sylweddol o arian, a thrwy roi o'u hamser a'u hegni i wella'r amgylchedd allanol. Mae'r ysgol yn cynnal nosweithiau rhieni dadlennol i'w helpu i gynorthwyo'u plant â'u gwaith yn effeithiol. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi hyn.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthfawr ag amrediad eang o asiantaethau allanol, sy'n cynnwys yr awdurdod lleol a'r gwasanaethau iechyd a lles, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad y disgyblion.

Mewn cyfnod byr, mae'r ysgol wedi meithrin cysylltiadau agos a buddiol â'r gymuned leol; er enghraifft, drwy gynnal cyngherddau ar y cyd â Chôr y Gyrlais ac ymweld â chapeli lleol. Mae perthynas effeithiol â swyddogion Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Safle Bioamrywiaeth Pontardawe yn cynnig profiadau gwerthfawr i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o'r amgylchedd lleol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos a buddiol gyda lleoliadau cyn-ysgol sydd wedi ymgartrefu yn yr adeilad. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn teimlo'n rhan o'r ysgol ac yn helpu disgyblion newydd i ymgartrefu'n gyflym wrth drosglwyddo yn dair oed. Ceir trefniadau trosglwyddo gwerthfawr ag ysgolion partner uwchradd i baratoi disgyblion Blwyddyn 6 yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau gan athro un o'r ysgolion hyn i gynnig profiadau mathemategol ymestynnol i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n gynhyrchiol gydag ysgolion cynradd ac uwchradd eraill hefyd i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn wedi arwain at well cysondeb wrth asesu a lefelu gwaith.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth arbennig o lwyddiannus a chreadigol gydag ysgol gynradd arall mewn sir gyfagos. Ym Mlwyddyn 6, mae disgyblion yn y naill ysgol a'r llall yn cymryd eu tro i ddyfeisio a gosod her greadigol ac uchelgeisiol i'w gilydd. Caiff hyn ei gyfathrebu drwy fideo gynadleddfa effeithiol a drefnwyd gan y disgyblion. Mae'r heriau hyn yn arfau pwerus i ddatblygu medrau meddwl, TGCh, llythrennedd a rhifedd y disgyblion ac yn cynnwys enghreifftiau diddorol fel llunio storïau ar y cyd neu esbonio Cyfres Fibonacci. Mae'r arfer hon wedi llwyddo i danio dychymyg y disgyblion a'u hannog i gyflawni tasgau uchelgeisiol a symbylol yn llwyddiannus. Mae data heb ei wirio yn dangos bod y bartneriaeth hon wedi cyfrannu'n sylweddol at wella cyflawniadau'r disgyblion ar y lefelau uwch ar frig yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn effeithlon, gan sicrhau trefniadau staffio priodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Gwneir defnydd buddiol o'r adnoddau

sydd ar gael i gyfoethogi'r cwricwlwm, gan gynnwys yr ardal tu allan, ac mae’r staff wedi cydweithio'n effeithiol i greu amgylchedd dysgu ysgogol a deniadol iawn i'r disgyblion.

Mae ystod o gyfleoedd hyfforddiant addas, a threfniadau rheoli perfformiad cadarn, i sicrhau bod cyfleoedd priodol ar gael i ddiwallu anghenion datblygu staff a blaenoriaethau'r ysgol. Mae’r athrawon yn defnyddio’u hamser cynllunio, paratoi ac asesu’n effeithlon ac mae'r trefniadau'n cael eu rheoli'n dda. Trwy ddefnyddio athro arbenigol i gymryd dosbarthiadau’r athrawon eraill yn ystod y cyfnodau hyn, mae’r ysgol yn datblygu medrau corfforol y disgyblion ar draws yr ysgol yn hynod effeithiol.

Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol yn bodoli gydag ysgolion a phartneriaid eraill. Maent yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion, yn enwedig i wella'r defnydd o lythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli'r cyllid yn ofalus ac yn defnyddio grantiau yn effeithiol i wella’r ddarpariaeth a chodi safonau, er enghraifft wrth fynd ati i ddatblygu ardal wyllt ar dir yr ysgol. Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n agos â’r blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae’r ysgol yn defnyddio’r Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol i godi safonau darllen a rhifedd disgyblion, ynghyd â’u medrau emosiynol a chymdeithasol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles grŵp penodol o ddisgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6662152 - Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 284 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.8 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | * | 37 | 33 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | * | 59.5 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 37 | 33 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 62.2 | 84.8 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 27.0 | 36.4 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 37 | 33 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 70.3 | 84.8 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 37.8 | 48.5 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 37 | 33 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 83.8 | 97.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 56.8 | 75.8 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6662152 - Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 284 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.8 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | * | * | 34 | 21 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | * | * | 85.3 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | * | * | 3 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 34 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | 85.3 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | * | * | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 32.4 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | * | * | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 34 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | 82.4 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | * | * | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 23.5 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | * | * | 3 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 34 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | 88.2 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | * | * | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 52.9 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | * | * | 1 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 34 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | 91.2 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | * | * | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 41.2 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | * | * | 2 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 125 | 122<br>98% | 3<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 125 | 120<br>96% | 5<br>4% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 125 | 123<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 125 | 123<br>98% | 2<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 125 | 125<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 125 | 122<br>98% | 3<br>2% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 125 | 125<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 125 | 123<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 125 | 114<br>91% | 11<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 125 | 124<br>99% | 1<br>1% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 125 | 116<br>93% | 9<br>7% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 124 | 119<br>96% | 5<br>4% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 99 | 49 | 44 | 4 | 2 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 49% | 44% | 4% | 2% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 98 | 64 | 33 | 0 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 65% | 34% | 0% | 1% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 99 | 68 | 31 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 98 | 52 | 41 | 4 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 53% | 42% | 4% | 1% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 89 | 45 | 41 | 3 | 0 | 8 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 51% | 46% | 3% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 96 | 50 | 42 | 2 | 2 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 52% | 44% | 2% | 2% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 98 | 61 | 36 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 62% | 37% | 1% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 91 | 47 | 38 | 2 | 4 | 7 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 52% | 42% | 2% | 4% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 91 | 51 | 34 | 3 | 3 | 6 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 56% | 37% | 3% | 3% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 97 | 66 | 29 | 2 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 68% | 30% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 98 | 66 | 28 | 3 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 29% | 3% | 1% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 79 | 46 | 26 | 5 | 2 | 14 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 58% | 33% | 6% | 3% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 97 | 41 | 43 | 10 | 3 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 42% | 44% | 10% | 3% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 98 | 56<br>57% | 36<br>37% | 4<br>4% | 2<br>2% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 87 | 36<br>41% | 40<br>46% | 7<br>8% | 4<br>5% | 10 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 90 | 50<br>56% | 36<br>40% | 3<br>3% | 1<br>1% | 9 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 64 | 31<br>48% | 25<br>39% | 7<br>11% | 1<br>2% | 25 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 97 | 43<br>44% | 39<br>40% | 10<br>10% | 5<br>5% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 94 | 43<br>46% | 43<br>46% | 3<br>3% | 5<br>5% | 4 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Sioned Thomas | Arolygydd Tîm |
| Jeffrey Davies | Arolygydd Lleyg |
| Sarah Richards | Arolygydd Cymheiriaid |
| Emma Rofe | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.